

Eitem: 12

Teitl: Adroddiad Cyllid – Mis 5 – 2024/25

Gweithredu / Action required	Adroddiad er gwybodaeth
Amseru / Timing	Arferol
Argymhelliad / Recommendation	Argymhellir bod y Bwrdd yn nodi'r adroddiad Cyllid ar gyfer y cyfnod 5 mis yn diweddu 31 Awst 2024.
Risg / Risk	Risg i enw da ac ariannol
Cyllid / Finance	Amh
Amcan Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective	Llywodraethu ariannol Llais
Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity & Inclusion	Amh
Cyfathrebu / Communications	Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar: Mewnol: ein pobl <input checked="" type="checkbox"/> Allanol: ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid <input checked="" type="checkbox"/> Allanol: enw da ein sefydliad <input checked="" type="checkbox"/>
Cymeradwyaeth / Approval/Clearance	Joanne Bolton (Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol)
Trafodaethau/ Penderfyniadau Blaenorol / Previous discussions/decisions	Amh
Awdur/ Cyflwyno / Author/presenting	Joanne Bolton, Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol
Dyddiad / Date	25 Medi 2024

Cefndir

Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn derbyn adroddiadau ariannol cyfnodol ar wariant misol a chronnus o gymharu â'r Cynllun Ariannol Interim.

Mae'r Cynllun Ariannol Interim 2024/25 yn nodi'r adnoddau ariannol sydd eu hangen i alluogi Llais i gyflawni ei gynllun blynyddol. Mae'r cynllun ariannol wedi'i osod i sicrhau nad yw gwariant yn fwy na'r incwm gan Lywodraeth Cymru.

Adolygodd a chraffodd y Pwyllgor Archwilio a Risg yr adroddiad ariannol ar 18 Medi.

Manylion / Detail

Adroddiad ariannol ym mis 5

Ar ddiwedd mis Awst, adroddir tanwariant cronol o £194K.

Mae hyn yn bennaf oherwydd swyddi gwag ac amseriad gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau. Mae unrhyw danwariant staff oherwydd swyddi gweigion yn ystod y 5 mis wedi'i ailddyrrannu i gategori gwariant wrth gefn. Y gwerth wrth gefn yw £94,556 ar ddiwedd mis Awst. Nid oes disgwyl i'r tanwariant cronol presennol dreiglo i ddiwedd y flwyddyn, gan y rhagwelir tanwariant o £1K ar ddiwedd y flwyddyn.

Cyfarfu'r tîm gweithredol ddydd Mawrth 17 Medi i drafod/adolygu'r sefyllfa ariannol. Cynhaliwyd adolygiad o'r holl linellau gwariant rhanbarthol a chanolog gan gynnwys trafodaethau ar y rhagolwg 12 mis, gan ymgorffori'r dyfarniad cyflog diweddar o 5.5%. Gweler y ddolen isod i'r "Datganiad Ysgrifenedig: Cyflog y Sector Cyhoeddus: Ymateb i Gyrrff Adolygu Tâl..." sy'n cyfeirio at y dyfarniad cyflog hwn.

Heriau ariannu

Mae Llais yn gweithredu mewn amgylchedd ariannu heriol ar hyn o bryd. Mae'n her rheoli cyllideb pan fyddwch bron hanner ffordd o'r flwyddyn ariannol, heb dderbyn y llythyr ariannu gan Lywodraeth Cymru ac ansicrwydd ynghylch cyllid dyfarniadau cyflog.

Derbyniodd y pwyllgor archwilio a sicrwydd risg adroddiad ar 18 Medi yn hysbysu am drafodaethau diweddar gyda'n cangen noddi, Llywodraeth Cymru, lle y dywedwyd nad oedd unrhyw arian ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol. Fodd bynnag, rhoddodd Llywodraeth Cymru hysbysiad ar 10 Medi yn nodi: "*Eleni, gall cyrrff hyd fraich wneud dyfarniadau cyflog cyfartalog hyd at 5%*". "*Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ychwanegol yn 2024-2025 i bontio'r*

bwllch rhwng tybiaethau biliau cyflog y mae cyrff wedi cynllunio ar eu cyfer (3.7%), a'r ymrwymïadau cyflog uwch yn y sector cyhoeddus y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru".

Rydym yn gorff hyd braich, ond mae ein staff ar delerau ac amodau Agenda ar gyfer Newid.

Hefyd, isod mae dolen i ddatganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru. Gyda dyfyniad a nodir isod.

[Datganiad Ysgrifenedig: Cyflogau'r Sector Cyhoeddus: Ymateb i Argymhellion y Cyrff Adolygu Cyflogau 2024-25 \(10 Medi 2024\) | LLYW.CYMRU](#)

'Bydd staff y GIG ar delerau ac amodau Agenda ar gyfer Newid yn derbyn dyfarniad cyflog o 5.5%.

Rydym hefyd wedi cytuno ar godiad cyflog o hyd at 5% ar gyfartaledd i staff sy'n gweithio mewn amrywiaeth o sefydliadau datganoledig ac yng ngwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru. Bydd y dyfarniadau cyflog hyn yn cael eu hadlewyrchu mewn pecynnau cyflog cyn gynted â phosibl'.

Rydym yn derbyn hysbysiadau e-bost gan Lywodraeth Cymru fel Corff Hyd Fraich, ond mae gennym staff ar delerau ac amodau Agenda ar gyfer Newid. Mae angen rhywfaint o eglurder ynghylch beth fydd ein cyllid ar gyfer eleni yn ogystal â chynnydd mewn costau staff. Ond hefyd, rhywfaint o eglurder ar gyfer hysbysiadau blynyddoedd i ddod er mwyn osgoi dryswch yn y dyfodol.

Ers adrodd i'r pwyllgor archwilio a sicrwydd risg, mae Llywodraeth Cymru wedi cysylltu â ni yn gofyn am wybodaeth ariannol am gostau staff i hwyluso eu cyfrifiadau ar gyfer cyllid ychwanegol o tua 1.3%. Bydd y wybodaeth ariannol y byddwn yn ei darparu yn cynnwys ein rhagolwg blwyddyn lawn ynghyd â'n costau staffio llawn (gan gydnabod bod Llais wedi bod, ac yn dal i fod, yn cario nifer o swyddi gwag). Byddaf hefyd yn darparu ffigurau ar gyfer y sefydliad staffio llawn ar gyfer 2025/26 gan gynnwys y 5.5%.

Camau nesaf

- Bydd yr ychydig wythnosau nesaf yn cynnwys trafodaethau gyda'n Cangen Noddi i gael eglurhad ar ein sefyllfa ariannu, o ran llythyr ariannol y flwyddyn gyfredol ac unrhyw arian dyfarniad cyflog.

- Bydd rhagolygon diwedd blwyddyn yn cael eu paratoi.
- Cyfrifon rheoli hanner blwyddyn i'w paratoi a'u cymharu â'r sefyllfa rhagolwg diwedd blwyddyn.
- Bydd cyllideb 2025/26 yn cael ei drafftio.

Rheoli Arian Parod

Mae gan Llais ofyniad cyllid i reoli balansau arian parod o fewn terfynau goddefiant.

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am:

“Ni ddylai cymorth grant arian parod gael ei dynnu i lawr cyn bod angen gan fod cadw symiau gormodol o arian parod yn ddefnydd aneffeithlon o arian cyhoeddus. Rhaid i unrhyw gymorth grant heb ei wario a gedwir bob mis ac ar ddiwedd y flwyddyn gael ei gadw o fewn 4% a 2% yn y drefn honno o gyfanswm y cymorth grant arian parod a ddyfarnwyd ar gyfer y flwyddyn honno.”

Balans y banc ar ddiwedd mis Awst oedd £207,900, sef 2.7% (*Gorffennaf 2.5%*) o'r terfyn arian parod o £7.6m o gymharu â tharged Llywodraeth Cymru o 4%.

Argymhellion

Gofynnir i'r Bwrdd:

- Sylwi ar gynnwys yr adroddiad hwn